




Trefweddau a Thai

Townscapes and Housing

Mae adeiladau o bob math wrth wraidd awch Falcon i gofnodi newid. Nid oes unman lle maent hwy'n dod ynghyd mewn ffyrdd mwy cyfoethog a diddorol nag mewn trefweddau diwydiannol. Dechreuodd Falcon gofnodi trefweddau 'trefi gwaith' a thai diwydiannol ar hyd a lled Prydain yn hynod fanwl ar adeg o ailddatblygu cyflym a dymchwel tai cymunedau dosbarth gweithiol. Mae llawer o'i luniadau mor fanwl fel eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ddeall adeilad, neu hyd yn oed ei ailadeiladu.

Buildings of all kinds are at the heart of Falcon's desire to document change. Nowhere do they come together in richer and more interesting ways than in industrial townscapes. Falcon began recording, in meticulous detail the townscapes of 'worktowns' and industrial housing across Britain at a time of rapid redevelopment and demolition of working-class communities. Many of his drawings are so thorough that they preserve all the information necessary to understand a building, or even to reconstruct it.



NPRN 28882 FHA 01/111

Uchod: **Uwchlaw'r Ffynnon: cynllun a golygon, 1978**

Cafodd y rhes hon o saith o fythynnod chwarelwyr ym Methania, Blaenau Ffestiniog ei hadeiladu ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r lluniad hwn yn gofnod gwerthfawr o'r tai hyn a oedd yn wag ac wedi mynd â'u pen iddynt erbyn 1975.

Above: **Uwchlaw'r Ffynnon: plan and elevations, 1978**

This row of seven workers' cottages in Bethania, Blaenau Ffestiniog, was built in the mid-nineteenth century. This drawing is a valuable record of these houses, which were empty and ruinous by 1975.



Rhiwbrydir o Lefel Holland, Blaenau Ffestiniog, 1997

Mae'r lluniad cyfansawdd hwn o olygfeydd o Ffordd Glanypwll yn Rhiwbrydir, Blaenau Ffestiniog yn cynnwys lluniadau oddi uchod wedi'u tynnu o domen lechi Lefel Holland gerllaw.

Rhiwbrydir from Holland's Level, Blaenau Ffestiniog, 1997

This composite of views of Glanypwll Road in Rhiwbrydir, Blaenau Ffestiniog, includes elevated perspectives from the nearby Holland's Level slate tip.



NPRN 28880 FHA 01/143/01

Chwith: **Tŷ Uncorn**

Tŷ Uncorn ym Mlaenau Ffestiniog yw un o'r adeiladau domestig hynaf sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi yn yr ardal sydd wedi goroesi. Cafodd ei adeiladu tua 1810 gan yr Arglwydd Newborough yn gartref i chwarelwyr, ar ffurf pedair annedd wedi'u clystru o amgylch simnai ganolog gyffredin. Mae'r enw, wrth gwrs, yn golygu 'tŷ ag un corn' ac mae cyfeiriad yma hefyd at yr anifail chwedlonol, yr uncorn, ond weithiau caiff y tŷ ei alw'n 'Tŷ Potel Inc' oherwydd y tebygrwydd rhyngddo a siâp potel inc wydr draddodiadol.

Left: **Tŷ Uncorn**

Tŷ Uncorn at Blaenau Ffestiniog is one of the oldest surviving domestic buildings associated with the slate industry in the area. It was built in about 1810 by Lord Newborough to house workers. Four dwellings are clustered around a shared central chimney stack. The name means 'one-chimney house' and references the Welsh word for unicorn, but it is also sometimes called 'Inkpot House' from a similarity to a traditional glass ink bottle.



NPRN 305760. 8407 FHA 01/013



NPRN 301223 FHA 02/48

Chwith: **Tai yn Penhevad Street, 1986**

Cafodd y tŷ hwn yn Penhevad Street, Grangetown, Caerdydd ei adeiladu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Byddai tai o'r fath wedi darparu llety i deuluoedd a gâi eu denu i weithio yn y ddinas fel clerod, masnachwyr, peirianwyr a swyddogion y llynges fasnachol pan oedd Caerdydd yn ei hanterth fel porthladd glo.

Left: **Houses on Penhevad Street, 1986**

This house on Penhevad Street in Grangetown, Cardiff, was built in the early 1900s and would have provided accommodation for families attracted to the city during its heyday as a coal port, when there were many white-collar jobs for clerks, traders, engineers and merchant navy officers.

